

Eitem: 9

Teitl: Adroddiad diweddaru cyllid hyd at ddiwedd mis Mehefin 2025

Angen gweithredu / Action required	Er gwybodaeth
Amseru / Timing	Arferol
Argymhelliad / Recommendation	Bod y Bwrdd yn nodi'r diweddariad cyllid ar gyfer y 3 mis hyd at 30 Mehefin 2025 a'r rhagolwg blwyddyn lawn ar gyfer 2025/26.
Risg / Risk	Risg i enw da ac ariannol
Cyllid / Finance	Ddim yn berthnasol
Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective	I dyfu a gwella fel sefydliad
Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Dylai'r fformat adrodd ariannol fod yn hygyrch i bawb er mwyn caniatáu gwell dealltwriaeth o adroddiadau ariannol Llais. Mae ystyriaeth wedi'i rhoi i hyn.
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl ☒ Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒ Allanol: enw da ein sefydliad ☒
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Joanne Bolton, Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol
Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions	Ddim yn berthnasol
Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting	Katie Holliday Cyfarwyddwr Cyllid/Joanne Bolton, Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a



Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care

25-07-09

	Gwasanaethau Corfforaethol
Dyddiad / Date	28 Gorffennaf 2025
Cefndir / Background	

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Llais ar gyfer y 3 mis hyd at 30 Mehefin 2025 ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllideb a rhagolygon 2025/26 gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ymgysylltu â deiliaid cyllideb.

Dyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru 2025/26

Ym mis Mawrth 2025, ystyriodd y Bwrdd bapur yn manylu ar Gynllun Ariannol Llais ar gyfer 2025/26. Roedd y ddogfen hon yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r incwm a'r gwariant a ragwelwyd, y risgiau ariannol allweddol, a'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi cyflawniad y Cynllun Blyneddol.

Roedd y cynllun yn seiliedig ar y gyllideb a gymeradwywyd gan Senedd Cymru ym mis Chwefror 2025. Ers hynny, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau i'r Tîm Gweithredol y gall y gyllideb a gymeradwywyd gan y Senedd wasanaethu fel dyraniad adnoddau cychwynnol Llais ar gyfer 2025/26.

Cymeradwyodd y Bwrdd gyllideb 2025/26 yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2025. Darperir trosolwg o'r gyllideb yn Atodiad A, sy'n amlinellu'r dyraniadau ar y lefel ranbarthol ac ar draws gweithgareddau Cymru Gyfan.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y llythyr dyrannu ffurfiol yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

Mae Senedd Cymru wedi pleidleisio ar y gyllideb atodol gyntaf, lle cadarnheir y bydd Llais yn cael £96,000 ychwanegol o gyllid i gydnabod effaith y cynnydd yng nghostau yswiriant gwladol cyflogwyr ar gyfer 2025/26. Gan nad yw Llais wedi cael gwybod yn ffurfiol eto am ddarpariaeth y gyllideb ychwanegol hon gan Lywodraeth Cymru, nid yw wedi'i hadlewyrchu yn y gyllideb ar y llyfr cyfrifon eto.

Gan fod Senedd Cymru wedi pleidleisio ar y gyllideb, at ddibenion cynllunio, gellir tybio bod Llais wedi cael cyllideb adnoddau refeniw o £8,391,000 ar gyfer 2025/26, sy'n cynnwys y £96,000.

Manylion / Detail

Diweddariad Cyllid 2025/26

Mae'r Tîm Cyllid wedi gweithio gyda deiliaid cyllidebau i weithredu fframwaith adrodd mewnol newydd, gyda'r nod o gryfhau rheolaeth gyllidebol ar draws y sefydliad. Mae'n ofynnol bellach i ddeiliaid cyllidebau raddoli eu cyllidebau yn unol â'r cynllun gweithredol, a fydd yn hwyluso nodi amrywiadau yn gynharach ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau amserol.

Oherwydd nifer o swyddi gwag ar draws y sefydliad, nid yw wedi bod yn bosibl cwblhau'r ymarfer graddoli cyllidebol eto. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yr ymarfer hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Medi 2025.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn parhau i weithio gyda deiliaid cyllidebau a'u cefnogi i sicrhau bod dysgu wedi'i wreiddio, er mwyn gwella rheolaeth gyllidebol barhaus.

Mae'r craffu a'r ymgysylltu hwn â deiliaid cyllidebau wedi arwain at rywfaint o ail-ragolygu.

Cynllunio ariannol tymor canolig

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol, rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer swyddi parhaol newydd neu ymrwymïadau cytundebol hirdymor gael eu gwrthbwysu gan arbedion rheolaidd. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn osgoi'r risg o or-ymrwymo adnoddau y tu hwnt i'r gyllideb sydd ar gael.

Bydd cynllun ariannol tymor canolig ar gyfer 2026/27 a 2027/28 yn cael ei ddatblygu. Bydd hyn yn ymgorffori rhagamcanion cost y flwyddyn gyfredol i gefnogi gwneud penderfyniadau strategol tymor hwy.

Bydd cais cyllideb 2026/27 Llais yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ystod trydydd chwarter y flwyddyn hon.

Cyllideb wrth gefn

Ar 30 Mehefin 2025, roedd Llais yn cyflogi:

- 105 aelod o staff (ac eithrio aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio)

a Sicrwydd Risg)

- 95.84 Gyfwerth ag Amser Llawn (FTE) yn erbyn sefydliad llawn o 106.44.

Mae ymarfer y Cynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol wedi arwain at danwariant rhagweledig o £276,281 mewn costau staffio o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Bwrdd (Atodiad A). Mae'r tanwariant hwn wedi'i ryddhau i'r gyllideb wrth gefn ac wedi'i ddyrannu wedyn i gyflawni cynllun blynyddol Llais gan y Tîm Gweithredol.

Ar ddiwedd mis Mehefin 2025, roedd y gyllideb wrth gefn yn £46,000.

Mae nifer o amrywiadau rhwng rhagolwg diwedd blwyddyn Mehefin 2025 a'r gyllideb wreiddiol a gymeradwywyd gan y Bwrdd (Atodiad A). Mae'r rhain yn bennaf oherwydd cwblhau rhaglenni gwaith manwl yn dilyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2025.

Bydd y Tîm Gweithredol yn parhau i adolygu'r gyllideb wrth gefn yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio tuag at raglen waith dargedig ac effeithiol. Fel rhan o'r broses rheoli cyllideb, mae'r Tîm Gweithredol hefyd yn adolygu ac yn cymeradwyo unrhyw drosglwyddiadau o'r gyllideb wrth gefn i feysydd eraill.

Symudiadau swyddfa 2025/26

Ym mis Mai, rhoddodd y Bwrdd cymeradwyaeth dros dro i'r symud swyddfa o Ysbyty Cimla i Ganolfan Arloesi Bae Baglan, yn amodol ar ymgysylltiad cadarnhaol gan staff. Cymeradwywyd trosglwyddiad o £22,500 o'r gyllideb wrth gefn i gefnogi'r symudiad hwn.

Ni ddisgwylir y bydd yr adleoliad hwn yn arwain at arbedion cost sylweddol yn y tymor byr. Roedd yr ymgyrch i symud oherwydd cais ein landlord i adael ein hadeilad presennol, sydd hefyd yn hen ffasiwn ac yn anaddas at y diben. Mae dod o hyd i safle newydd wedi bod yn her oherwydd diffyg safleoedd addas. Er nad oes arbediad cost o'i gymharu â'n swyddfa bresennol, byddai hyn yn anodd ei gyflawni gydag unrhyw safle, yn dilyn ein hasesiad o sawl safle.

Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer symud swyddfeydd pellach yn 2025/26.

Cyllideb cyfalaf

Mae cais wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru am £30,000 mewn cyllid cyfalaf i gefnogi gwaith gwella lesddaliad yn swyddfa newydd Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, Canolfan Arloesi Bae Baglan, a nodwyd uchod. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys rhannu gofod swyddfa a gosodiadau trydanol cysylltiedig.

Incwm arall

Mae Llais wedi sicrhau cyllid ychwanegol o £173,000 dros 3 blynedd gan Tenovus i ariannu rôl eiriolwr cwynion canser pwrpasol. Mae'r bartneriaeth hon yn gwella gallu Llais i gefnogi unigolion sydd wedi'u heffeithio gan ganser ledled Cymru.

Hyd yn hyn, mae £46,000 wedi'i ofyn amdani a'i dderbyn gan Tenovus i ariannu'r swydd hon.

Mae'r gwariant hwn wedi'i gynnwys yn y rhagolwg diweddaraf ar gyfer 2025/26, fel y'i hadlewyrchir yn Atodiad A a B.

Dadansoddiad o feysydd sylweddol o amrywiant gwariant yn erbyn y gyllideb

Mae Atodiad B yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant hyd at ddiwedd mis Mehefin 2025, o'i gymharu â'r gyllideb fesul cam ar gyfer yr un cyfnod. Mae'r adrannau isod yn darparu gwybodaeth ychwanegol am yr amrywiadau mwyaf arwyddocaol a'r gweithgareddau rheoli cysylltiedig.

- Costau staff

Mae cyllidebau staff ar gyfer 2025/26 yn cynnwys costau pensiwn cyflogwyr ar gyfradd o 14.38% ar gyfer yr holl staff. Fodd bynnag, mae nifer o staff wedi dewis peidio â bod yn rhan o'r cynllun pensiwn, gan arwain at danwariant o £13,000 yn erbyn y gyllideb hyd yn hyn.

O fis Gorffennaf 2025 ymlaen, bydd costau pensiwn y staff hwn yn cael eu tynnu o'r rhagolwg, gan gynyddu'r gyllideb wrth gefn £52,000. Fodd bynnag, mae risg y gallai'r unigolion hyn ddewis dychwelyd i'r cynllun pensiwn yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a fyddai'n rhoi pwysau ar y gyllideb wrth gefn.

Mae cronfa wrth gefn mamolaeth ar wahân o £9,000 yn parhau heb ei dyrannu ac ar hyn o bryd mae wedi'i phroffilio yn Chwarter 1 i gefnogi costau posibl sy'n gysylltiedig â mamolaeth.

Mae amrywiadau eraill sy'n gysylltiedig â staff wedi codi oherwydd:

- Costau asiantaeth yn cael eu rhannu'n gyfartal dros y flwyddyn, tra bod staff dros dro yn cael eu talu am oriau gwirioneddol a weithiwyd o dan drefniadau gweithio hyblyg Llais.
- Cyfnodau cyflog llai i staff sy'n absennol oherwydd salwch.
 - Costau staff eraill

Yn unol â thrafodaethau cynnar a gynhaliwyd gyda Chyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, mae'r gyllideb hysbysebu recriwtio wedi'i chyflenwi fesul cam ar gyfer dechrau'r flwyddyn. Yn dilyn amserlenni recriwtio diwygiedig, bydd y gyllideb yn cael ei hailbroffilio i gyd-fynd â swyddi y disgwylir iddynt gael eu hysbysebu ym mis Gorffennaf ac Awst 2025. Ar hyn o bryd, adroddir bod tanwariant o £5,000 wedi'i wneud a disgwylir i'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfan barhau i fod yn ddigonol.

Mae'r gyllideb hyfforddi, sydd wedi'i rhannu'n gyfartal dros y flwyddyn, ar hyn o bryd yn dangos tanwariant o £10,000. Bydd hyn yn cael ei adolygu a'i ailbroffilio yn dilyn penodiad Rheolwr Pobl a Datblygu Sefydliadol newydd, a ymunodd ar 16 Gorffennaf, a bydd yn arwain ar ddatblygu cynllun dysgu a datblygu sefydliadol.

Mae costau teithio a chynhaliath hefyd wedi'u tanwario gan £15,000 ar draws timau rhanbarthol a chenedlaethol. Cafodd y cyllidebau hyn eu rhannu'n gyfartal dros y flwyddyn, ond mae trafodaethau diweddar gyda deiliaid cyllidebau wedi arwain at gytundeb i ailbroffilio'r llinellau hyn i adlewyrchu'r gweithgaredd disgwyliedig hyd at ddiwedd y flwyddyn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gellir ailddyrannu unrhyw danwariant yn effeithiol.

Wrth i Llais gasglu data gwariant hanesyddol o fewn y llyfr cyllid, bydd yn bosibl proffilio'r cyllidebau hyn yn fwy cywir yn y blynyddoedd i ddod.

- Digidol, Data a Thechnoleg

Mae'r gyllideb Ddigidol, Data a Thechnoleg yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trwyddedau meddalwedd, cynnal gwefannau, cymorth rhwydwaith, a chynllun wrth gefn ar gyfer cymorth TG 'ad-hoc' a phryniannau ymylol.

Mae'r tanwariant presennol yn bennaf oherwydd:

- Diwrnodau cymorth wrth gefn nas defnyddiwyd o fewn cyllideb cymorth y rhwydwaith.
- Llai o drwyddedau meddalwedd nag a ddisgwyliwyd wedi'u prynu hyd yn hyn.

Gallai adolygiad parhaus o seilwaith digidol Llais arwain at fuddsoddiad pellach yn ystod y flwyddyn. Felly, bydd y gyllideb hon yn parhau yn ei lle a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd yn unol â Strategaeth a Chynllun TG y sefydliad sy'n datblygu.

- Ffioedd Proffesiynol

Mae'r gyllideb hon yn cynnwys costau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a statudol, gan gynnwys gwasanaethau archwilio, cyfreithiol a chyfieithu.

Mae'r tanwariant hyd yn hyn yn bennaf oherwydd bod cyllidebau cyfieithu a chyfreithiol yn cael eu dosbarthu'n gyfartal dros y flwyddyn. Bydd y llinellau hyn yn cael eu hadolygu ddiwedd mis Medi 2025 i asesu eu digonolrwydd. Bydd unrhyw danwariant a ragwelir ar y pwynt hwnnw yn cael ei ailddyrannu i gronfa wrth gefn, lle bo'n briodol.

○ Rhaglenni penodol

Cwblhawyd y broses recriwtio o fewn y tîm Cyfathrebu a Mewnwelediadau ddiwedd mis Mehefin. Gofynnwyd i'r tîm adolygu ac aildrefnu ei gyllideb i gyd-fynd â gwariant gwirioneddol a chynlluniedig. Bydd hyn yn cefnogi nodi unrhyw amrywiadau yn y dyfodol yn amserol ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at gyflawni'r rhaglen waith y cytunwyd arni.

Rheoli arian parod

Ym mis Ebrill 2025, rhoddodd Llywodraeth Cymru £382,000 ychwanegol mewn Cymorth Grant i Llais i dalu am daliadau a wnaed i gyn-weithwyr o dan Gynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol (VERS) 2024/25. Mae'r cyllid hwn ar wahân i'r tynnu arian parod cyntaf o £1,680,000, sydd wedi'i ddyrannu i gefnogi gweithgareddau gweithredol yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26.

Yn dilyn trafodaethau gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn ystod 2024/25, mae Llais bellach yn derbyn cyllid arian parod yn chwarterol, yn hytrach nag yn fisol.

Gofynnwyd am yr ail gyfran o gyllid ar gyfer 2025/26 ddechrau mis Gorffennaf 2025 ac mae wedi'i dderbyn.

Crynodeb

Mae Llais yn parhau mewn sefyllfa ariannol sefydlog ar ddiwedd chwarter 1 2025/26.

Mae'r sefydliad wedi parhau i wireddu arbedion sy'n gysylltiedig â staffio, sydd wedi cefnogi ailddyrannu adnoddau i feysydd blaenoriaeth. Er bod amrywiadau wedi codi oherwydd newidiadau mewn cyfnodau, swyddi gwag staff, a chostau untro, mae'r rhain yn cael eu monitro'n agos a'u rheoli'n weithredol.

Bydd y Tîm Cyllid yn parhau i weithio gyda deiliaid cyllidebau i fireinio rhagolygon a sicrhau bod cyllidebau'n parhau i fod yn gyson â chynlluniau cyflawni gweithredol.

Argymhellion

Gofynnir i'r Bwrdd nodi cynnwys yr adroddiad hwn.